# Cynllun Trwyddedu Ychwanegol:
# Adroddiad Asesiad o'r Effaith ar Les

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi effaith debygol y cynnig ar les cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Sir Ddinbych, Cymru a'r byd.

**Rhif yr Asesiad:** 736

**Disgrifiad byr:** Nodi ac asesu unrhyw effeithiau (cadarnhaol a negyddol) a allai fod wedi digwydd mewn perthynas â gweithredu'r cynllun trwyddedu Tai Amlfeddiannaeth ychwanegol yn 2025. Yn ogystal ag asesu ail-ddynodi'r cynllun i'r wardiau estynedig.

**Dyddiad Cwblhau:**30/01/2020 15:16:00 Fersiwn: 2

**Cwblhawyd gan:** Miriam Evans

**Gwasanaeth â Chyfrifoldeb:** Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad

**Ardaloedd yr effeithir arnynt gan y cynnig:** Y Sir Gyfan

**Pwy fydd yn cael eu heffeithio gan y cynnig?** Tenantiaid, landlordiaid, asiantau rheoli, Rhentu Doeth Cymru, y gymuned leol, gwasanaethau brys, y GIG, Adran Gwaith a Phensiynau (credyd cynhwysol), gweithwyr adeiladu, gwasanaethau'r cyngor lleol e.e. gwasanaethau cymdeithasol, rheoli gwastraff, treth y cyngor

**A gafodd yr asesiad o'r effaith ar les hwn ei gwblhau fel grŵp?** Do

**Pwy sydd wedi bod yn rhan o ddatblygu'r asesiad o'r effaith hwn?** Tîm Gwarchod y Cyhoedd (Gorfodaeth Tai)

## Crynodeb a Chasgliad

Cyn i ni edrych yn fanwl ar gyfraniad ac effaith y cynnig, mae'n bwysig ystyried sut mae'r cynnig yn defnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Golyga hyn bod rhaid i ni weithredu "mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu bodloni heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i fodloni eu hanghenion eu hunain."

**Yr oedd y sgôr ar gyfer cynaliadwyedd y**

**dull yn: 3 seren allan o 4**

**Gwir sgôr: 30 / 36.**

**Crynodeb ar gyfer pob egwyddor Datblygu Cynaliadwy yn**

**yr Hirdymor**

**Atal**

**Integreiddio**

**Cydweithio**

**Cyfranogi**

**Crynodeb o'r effaith**

| **Nodau Lles** | **Effaith Gyffredinol** |
|---|---|
| Sir Ddinbych ffyniannus | Cadarnhaol |
| Sir Ddinbych wydn | Cadarnhaol |

| Nodau Lles | Effaith Gyffredinol |
|---|---|
| Sir Ddinbych iachach | Cadarnhaol |
| Sir Ddinbych fwy cyfartal | Cadarnhaol |
| Sir Ddinbych gyda chymunedau cydlynol | Cadarnhaol |
| Sir Ddinbych â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | Niwtral |
| Sir Ddinbych sy'n gyfrifol yn fyd-eang | Cadarnhaol |

### Prif gasgliadau

Y prif gasgliadau o'r Asesiad o Effaith ar Les yw bod y canlyniad yn cyfrannu'r gadarnhaol yn gyffredinol i'r nodau lles. Byddai cynllun trwyddedu tai fel hwn yn cael effaith gadarnhaol eang ar les cymdeithasol, effaith amgylcheddol ac ar welliannau economaidd i'r ardal ehangach. Mae'r adroddiad hwn wedi amlygu bod angen canolbwyntio ar gynhwysiad cymdeithasol a datblygiad.

## Yr effaith debygol ar Sir Ddinbych, Cymru a’r byd.

### Sir Ddinbych ffyniannus -

### Effaith Gyffredinol

Cadarnhaol

### Cyfiawnhad dros yr effaith

Gwelir bod cyflwyno cynllun trwyddedu ychwanegol Tai Amlfeddiannaeth yn cael effaith 'gadarnhaol' gyffredinol ar Sir Ddinbych gan mai ei nodau ac amcanion yw gwella ansawdd tai a all gael effaith gadarnhaol ar addysg, iechyd, lles a'r economi (Sir Ddinbych ffyniannus)

### Camau pellach angenrheidiol

Drwy nodi unrhyw effaith negyddol a chymryd camau i fynd i'r afael â nhw, gallwn sicrhau bod unrhyw effeithiau negyddol yn cael eu lleihau cymaint â phosibl. Wrth nodi'r pethau cadarnhaol, gallwn gymryd camau i sicrhau bod yr effaith fwyaf o'r cynllun yn cael ei gwireddu.

### Effeithiau cadarnhaol a nodwyd:

### Cymdeithas carbon isel

Gwelliant yn effeithlonrwydd ynni isafswm eiddo.

### Cyfathrebu, isadeiledd a chludiant safonol

Gallai cynnydd mewn darpariaeth roi dewis gwell o lety byw gwell trwy wella safonau eiddo a chyfleustodau fel nwy, trydan a dŵr gan annog tenantiaethau mwy cynaliadwy

### Datblygu economaidd

Gallai tai gwell gyda chostau byw is weld cynnydd mewn incwm gwario a allai annog pobl i wario mwy yn eu cymuned leol e.e. siopau, bwytai, ac ati.

Dim tystiolaeth bod rhenti wedi cynyddu'n sylweddol

Gall amodau byw gwell gefnogi rhagolygon gwell i unigolion.  Os yw unigolion yn teimlo'n well yn feddyliol ac yn eu lles, gallant wneud gwelliannau eraill a theimlo'n fwy hyderus i chwilio am waith.
Gwaith adeiladu sy'n cyflogi crefftwyr lleol
Cyfleoedd i denantiaid gyflogaeth, h.y. rheoli eiddo ar ran landlord absennol. Rhai'n cael eu cyflogi fel gofalwyr/tasgmon

### Sgiliau safonol ar gyfer yr hirdymor

Gall tai gwell arwain at gyfleoedd addysgol gwell a gwaith gwell

### Swyddi safonol ar gyfer yr hirdymor

Gall amodau byw gwell gefnogi rhagolygon gwell i unigolion.  Os yw unigolion yn teimlo'n well yn feddyliol ac yn gorfforol, gallant wneud gwelliannau eraill i'w lles cyffredinol a theimlo'n fwy hyderus i chwilio am waith.  Mae tystiolaeth y gall amodau tai gwell arwain at lefelau crynodiad uwch o breswylwyr a morâl gwell i chwilio am waith

### Gofal Plant

Gall cynnydd yn nifer y preswylwyr mewn cyflogaeth arwain at gynnydd yn yr angen am ofal plant.

### Effeithiau negyddol a nodwyd:

### Cymdeithas carbon isel

Bydd uwchraddio eiddo yn cael effaith tymor byr ar yr ôl troed carbon.

### Cyfathrebu, isadeiledd a chludiant safonol

Cynyddu'r baich ar y system gludiant o ganlyniad i bobl yn teithio i'r gwaith ac yn ôl.

### Datblygu economaidd

Gall trwyddedu ychwanegol atal landlordiaid rhag prynu eiddo oherwydd ffioedd ac ati.  DS: Nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu hyn gyda'r cynllun presennol

Efallai y bydd llai o waith yn cael ei wneud gan grefftwyr lleol ac o ganlyniad llai o gefnogaeth i fasnach leol os nad yw'r rheolaeth o fewn Tai Amlfeddiannaeth yn cyrraedd y safon.

### Sgiliau safonol ar gyfer yr hirdymor

Amherthnasol

### Swyddi safonol ar gyfer yr hirdymor

Amherthnasol

### Gofal Plant

Diffyg cyfleusterau gofal plant a gofal plant fforddiadwy mewn ardaloedd penodol.

### Sir Ddinbych wydn -

### Effaith Gyffredinol

Cadarnhaol

### Cyfiawnhad dros yr effaith

Bydd cyflwyno cynllun trwyddedu ychwanegol Tai Amlfeddiannaeth yn gyffredinol yn cael effaith 'gadarnhaol' ar Sir Ddinbych oherwydd bod problem gyda storio gwastraff mewn Tai Amlfeddiannaeth a gall yr addysg well a chynnwys amodau trwyddedu penodol ond gwella'r sefyllfa.

### Camau pellach angenrheidiol

Drwy nodi’r effeithiau negyddol a chymryd camau i fynd i'r afael â nhw, gallwn sicrhau bod unrhyw effeithiau negyddol yn cael eu lleihau cymaint â phosibl.  Wrth nodi'r pethau cadarnhaol, gallwn gymryd camau i sicrhau bod yr effaith fwyaf o'r cynllun yn cael ei gwireddu.

### Effeithiau cadarnhaol a nodwyd:

### Bioamrywiaeth a’r amgylchedd naturiol

Amherthnasol

**Bioamrywiaeth yn yr amgylchedd adeiledig**

Amherthnasol

**Lleihau gwastraff, ailddefnyddio ac ailgylchu**

Gall trwydded ofyn am ddarparu system rheoli gwastraff trwy gyfleusterau ailgylchu ac addysgu preswylwyr

**Defnyddio llai o ynni/tanwydd**

Mae'r Cynllun Trwyddedu yn cynnwys amodau ynghylch y safonau gofynnol ar gyfer darparu effeithlonrwydd gwresogi ac ynni.

**Ymwybyddiaeth pobl o'r amgylchedd a bioamrywiaeth**

Cynnydd mewn ymwybyddiaeth o ailgylchu, ailddefnyddio a lleihau carbon

**Rheoli perygl llifogydd**

Amherthnasol

**Effeithiau negyddol a nodwyd:**

**Bioamrywiaeth a’r amgylchedd naturiol**

Amherthnasol

**Bioamrywiaeth yn yr amgylchedd adeiledig**

Amherthnasol

**Lleihau gwastraff, ailddefnyddio ac ailgylchu**

Gall rheoli system wastraff fod yn anodd hyd yn oed ar ôl darparu biniau. Diffyg cyfrifoldeb tenantiaid/camddefnyddio'r system ac nid oes system ar waith ynghylch pwy sy'n gorfodi.

Mannau cymunedol - dim cyfrifoldeb cydnabyddedig am roi biniau allan neu mae gwastraff yn cael ei gymysgu gan arwain at

gasglwyr sbwriel yn gwrthod casglu. Felly, mae hyn yn parhau â'r broblem gwastraff. Wedi'i waethygu mewn rhai ardaloedd/strydoedd oherwydd diffyg lle ar gyfer cynwysyddion priodol
Darpariaeth gwastraff - dim lle mewn rhai eiddo i roi gwastraff allan, mae'n rhaid ei storio y tu mewn, casgliad bob 4 wythnos ac mae hyn yn achosi problemau

### Defnyddio llai o ynni/tanwydd

Problem gwres fforddiadwy - mae gofynion i wella'r ddarpariaeth wedi'u gwneud i wella gwresogi. Fodd bynnag, nid yw'r tenant wedi gallu fforddio ei ddefnyddio
Ni all trwyddedu ofyn am wres canolog, dim ond system wresogi isafswm

### Ymwybyddiaeth pobl o'r amgylchedd a bioamrywiaeth

Amherthnasol

### Rheoli perygl llifogydd

Amherthnasol

### Sir Ddinbych Iachach -

### Effaith Gyffredinol

Cadarnhaol

### Cyfiawnhad dros yr effaith

Ar y cyfan, fe'i gwelir yn effaith 'gadarnhaol' gan y gall amodau tai gwell arwain at welliant mewn lles seicolegol a lles corfforol y preswylwyr.

### Camau pellach angenrheidiol

Drwy nodi’r effeithiau negyddol a chymryd camau i fynd i'r afael â nhw, gallwn sicrhau bod unrhyw effeithiau negyddol yn cael eu lleihau cymaint â phosibl. Wrth nodi'r pethau cadarnhaol, gallwn gymryd camau i sicrhau bod yr effaith fwyaf o'r cynllun yn cael ei gwireddu.

### Effeithiau cadarnhaol a nodwyd:

## Amgylchedd cymdeithasol a chorfforol sy’n annog ac yn cefnogi iechyd a lles

Mae trwydded yn nodi Tai Amlfeddiannaeth ac yn gwella amodau h.y. mae rhai landlordiaid wedi gwella amodau yn sylweddol ond heb gynyddu rhenti.
Mae eiddo trwyddedig yn cael eu harchwilio a pheryglon yn cael eu hamlygu a gwneir gwelliannau. Mae'r Cynllun Trwyddedu yn cynnwys amodau ynghylch y safonau gofynnol ar gyfer darparu gwresogi, diogelwch cymunedol h.y. clo ar bob ffenestr ar y llawr gwaelod
Mae'n rhaid i landlordiaid gael gweithdrefnau ar waith i reoli
Gostwng Ymddygiad Gwrthgymdeithasol mewn niwsans sŵn
Tystiolaeth (ystadegol) i ddangos gwelliant aruthrol mewn amodau yn dilyn gweithredu'r drwydded.
Diogelwch - Gostyngiad mewn peryglon - gostyngiad mewn anafiadau/gwiriad diogelwch trydanol 5 mlynedd/rheoliadau tân/nwy yn cael ei wirio'n flynyddol neu ar newid tenantiaeth
Darpariaeth ar gyfer prawf PAT yn y drwydded ynghyd â dodrefn mae'n rhaid iddynt fodloni'r gofynion gofynnol. Gostyngiad mewn cyflwyniadau digartrefedd i'r Adran Tai oherwydd gwelliannau llety.
Gall leihau gorlenwi
Rheoliadau tân wedi'u cynnwys yn amodau'r drwydded. Yn gwella atyniad cyffredinol yr ardal.

## Mynediad at fwyd iach o ansawdd da

Mae darparu cyfleusterau coginio gwell a mwy o arian gwario yn golygu prydau bwyd iachach a llai o fwyd tecawê gan gynyddu iechyd gwell a llai o ordewdra

## Lles emosiynol a meddyliol pobl

Gall amodau tai gwell gael effaith gadarnhaol ar iechyd a lles corfforol ac emosiynol

## Mynediad at ofal iechyd

Amherthnasol

## Cymryd rhan mewn cyfleoedd hamdden

Mae'n debygol y bydd gan breswylwyr sy'n byw mewn cartrefi gwell y gallu i gymryd rhan mewn cyfleoedd hamdden oherwydd gwelliannau yn eu hiechyd a'u lles

**Effeithiau negyddol a nodwyd:**

**Amgylchedd cymdeithasol a chorfforol sy'n annog ac yn cefnogi iechyd a lles**

Problem gwres fforddiadwy - mae gofynion i wella'r ddarpariaeth a gwella gwresogi. Fodd bynnag, efallai na fydd y tenant yn gallu fforddio ei ddefnyddio
Ni all trwyddedu ofyn am wres canolog, dim ond system wresogi isafswm, h.y. gwresogydd trydan, ac nid dyma'r mesurau mwyaf cost-effeithiol.

Efallai y bydd angen gwybodaeth ar denantiaid i herio safonau
Dim grwpiau tenantiaid o fewn llety tenantiaid preifat. Maes anodd ar gyfer ymgysylltu

**Mynediad at fwyd iach o ansawdd da**

Cynnydd yn yr angen am ddarpariaeth ailgylchu gwastraff bwyd.

**Lles emosiynol a meddyliol pobl**

Amherthnasol

**Mynediad at ofal iechyd**

Amherthnasol

**Cymryd rhan mewn cyfleoedd hamdden**

Amherthnasol

**Sir Ddinbych fwy cyfartal -**

**Effaith Gyffredinol**

Cadarnhaol

**Cyfiawnhad dros yr effaith**

Ar y cyfan, gellir gweld effaith 'gadarnhaol' gan y gellir gweld bod mynediad at dai o ansawdd gwell yn lleihau'r bwlch rhwng y bobl hynny sydd mewn tlodi a'r rhai nad ydynt, trwy welliannau mewn amodau byw a mynediad at addysg a swyddi.

### Camau pellach angenrheidiol

Drwy nodi'r effeithiau negyddol y gall gwelliant i'r stoc dai eu cael ar fynediad at dai, gallwn ymdrechu i leihau'r rhwystrau hyn trwy leihau'r effaith negyddol i lefel dderbyniol trwy bolisïau a rheolaeth effeithiol.

### Effeithiau cadarnhaol a nodwyd:

## Hyrwyddo cydraddoldeb a gwella lles pobl â nodweddion gwarchodedig, gan gynnwys meithrin perthnasoedd da rhwng pobl â nodweddion gwarchodedig a'r rhai hebddynt. Y naw nodwedd gwarchodedig yw: oedran; anabledd; ailbennu rhywedd; priodas neu bartneriaeth sifil; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred; rhywedd; a chyfeiriadedd rhywiol

Mae Trwyddedu Ychwanegol yn rheoleiddio lefelau gorlenwi a thrwy hynny’n lleihau ymddygiad o gymryd risg gan denantiaid ac o bosibl lleihau gweithgaredd rhywiol a cham-drin rhywiol o grwpiau diamddiffyn
Perthynas well rhwng tenant a landlord

## Hyrwyddo cydraddoldeb a gwella lles pobl sy'n dioddef gwahaniaethu neu anfantais

Mae Tai Amlfeddiannaeth a reolir yn fanwl yn sicrhau bod gwahaniaethu yn cael eu nodi a'u trin

Mae polisïau a gweithdrefnau ymddygiad gwrthgymdeithasol yn golygu cartrefi mwy diogel i bobl ddiamddiffyn

Mae Trwyddedu Ychwanegol yn rheoleiddio lefelau gorlenwi a thrwy hynny’n lleihau ymddygiad o gymryd risg gan denantiaid ac o bosibl lleihau gweithgaredd rhywiol a cham-drin rhywiol o grwpiau diamddiffyn

## Hyrwyddo cydraddoldeb a gwella lles pobl yr effeithiwyd arnynt gan anfantais economaidd-gymdeithasol a chanlyniadau anghyfartal

Bydd cyflwyno cynllun trwyddedu yn mynd i'r afael â thlodi tanwydd trwy gyflwyno safon effeithlonrwydd ynni isafswm gan leihau gwariant

### Ardaloedd yr effeithiwyd arnynt gan anfantais economaidd-gymdeithasol

Bydd mynediad at lety o ansawdd gwell yn lleihau afiechyd sy'n deillio o beryglon fel lleithder a llwydni. Mae cynnydd mewn safonau o fewn wardiau Sir Ddinbych yn denu mwy o bobl i'r ardaloedd hyn

### Effeithiau negyddol a nodwyd:

## Hyrwyddo cydraddoldeb a gwella lles pobl â nodweddion gwarchodedig, gan gynnwys meithrin perthnasoedd da rhwng pobl â nodweddion gwarchodedig a'r rhai hebddynt. Y naw nodwedd gwarchodedig yw: oedran; anabledd; ailbennu rhywedd; priodas neu bartneriaeth sifil; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred; rhywedd; a chyfeiriadedd rhywiol

Amherthnasol

### Hyrwyddo cydraddoldeb a gwella lles pobl sy'n dioddef gwahaniaethu neu anfantais

Gallai cynnydd mewn rheoleiddio atal landlordiaid rhag cynnig llety i rai grwpiau diamddiffyn

### Hyrwyddo cydraddoldeb a gwella lles pobl yr effeithiwyd arnynt gan anfantais economaidd-gymdeithasol a chanlyniadau anghyfartal

Gall fforddiadwyedd ddod yn broblem er y byddai safonau isafswm yn gwella amodau. Effaith andwyol efallai yw nad ydynt yn fwyaf cost-effeithiol, felly mae'r broblem o 'gynhesu neu fwyta'. Er y byddai cyfleusterau'n cael eu darparu i hyrwyddo ymddygiadau ffordd o fyw gwell, gall y rhain gostio gormod i denantiaid eu defnyddio

### Ardaloedd yr effeithiwyd arnynt gan anfantais economaidd-gymdeithasol

Cynnydd posibl mewn gorlenwi oherwydd y galw am dai gwell yn denu mwy o denantiaid i rai ardaloedd

**Sir Ddinbych gyda chymunedau cydlynol -**

**Effaith Gyffredinol**

Cadarnhaol

**Cyfiawnhad dros yr effaith**

Drwy nodi'r effeithiau cadarnhaol y gall gwelliant i'r stoc tai eu cael ar fynediad at dai, gallwn ymdrechu i wneud y mwyaf o'r canlyniadau trwy wella'r effaith ar gydlyniant cymdeithasol i lefel uchel trwy bolisïau a rheolaeth effeithiol.

**Camau pellach angenrheidiol**

Drwy nodi'r effeithiau negyddol y gall gwelliant i'r stoc dai eu cael ar fynediad at dai, gallwn ymdrechu i leihau'r rhwystrau hyn trwy leihau'r effaith negyddol ar gydlyniant cymunedol i lefel dderbyniol trwy bolisïau a rheolaeth effeithiol.

**Effeithiau cadarnhaol a nodwyd:**

**Cymunedau ac unigolion diogel**

Mae'n rhaid i landlordiaid gael gweithdrefnau ar waith i reoli
Gostwng Ymddygiad Gwrthgymdeithasol mewn niwsans sŵn
Tystiolaeth (ystadegol) i ddangos gwelliant aruthrol mewn amodau yn dilyn gweithredu'r drwydded.
Diogelwch - Gostyngiad mewn peryglon - gostyngiad mewn anafiadau/gwiriad diogelwch trydanol 5 mlynedd/rheoliadau tân/nwy yn cael ei wirio'n flynyddol neu ar newid tenantiaeth
Darpariaeth ar gyfer prawf PAT yn y drwydded ynghyd â dodrefn mae'n rhaid iddynt fodloni'r gofynion gofynnol. Gostyngiad mewn cyflwyniadau digartrefedd i'r Adran Tai oherwydd gwelliannau llety
Gall leihau gorlenwi
Rheoliadau tân wedi'u cynnwys yn amodau'r drwydded.

**Cyfranogiad a gwytnwch cymunedol**

Mae ymgynghori yn gam annatod o'r cynllun trwyddedu. Mae hyn yn cynnwys pennu'r amodau priodol i'w gosod. Bydd ymgynghoriad ar gael i bob sector o'r gymuned gan gynnwys y grwpiau diamddiffyn.

### Atyniad yr ardal

Yn gwella atyniad cyffredinol yr ardal - yn cyfrannu at y wardiau cyfan

Angen addysg i denantiaid ynghylch rheoli gwastraff

### Cysylltu Cymunedau

Amherthnasol

### Gwytnwch gwledig

Bydd y rhan fwyaf o Dai Amlfeddiannaeth wedi'u crynhoi yng nghanol trefi yn hytrach na chymunedau gwledig

### Effeithiau negyddol a nodwyd:

### Cymunedau ac unigolion diogel

Amherthnasol

### Cyfranogiad a gwytnwch cymunedol

Gellir ystyried pob sylw ond ni ellir gweithredu pob un

### Atyniad yr ardal

Gall rheoli system wastraff fod yn anodd hyd yn oed ar ôl darparu biniau.  Diffyg cyfrifoldeb tenantiaid/camddefnyddio'r system ac nid oes system ar waith ynghylch pwy sy'n gorfodi
Mannau cymunedol - dim cyfrifoldeb cydnabyddedig am roi biniau allan neu mae gwastraff yn cael ei gymysgu gan arwain at gasglwyr sbwriel yn gwrthod casglu.  Felly, mae’r broblem gwastraff yn parhau.
Wedi'i waethygu mewn rhai ardaloedd/strydoedd oherwydd diffyg lle ar gyfer cynwysyddion priodol
Darpariaeth gwastraff - dim lle mewn rhai eiddo i roi gwastraff allan, mae'n rhaid ei storio y tu mewn, casgliad bob 4 wythnos ac mae hyn yn achosi problemau

### Cysylltu Cymunedau

Amherthnasol

**Gwytnwch gwledig**

Amherthnasol

**Sir Ddinbych â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu -**

**Effaith Gyffredinol**

Niwtral

**Cyfiawnhad dros yr effaith**

Drwy nodi'r effeithiau cadarnhaol y gall gwelliant i'r stoc tai eu cael ar fynediad at dai, gallwn ymdrechu i wneud y mwyaf o ganlyniadau diwylliant bywiog ac iaith Gymraeg sy'n ffynnu i lefel uchel trwy bolisïau a rheolaeth effeithiol.

**Camau pellach angenrheidiol**

Drwy nodi'r effeithiau negyddol y gall gwelliant i'r stoc tai eu cael ar fynediad at dai, gallwn ymdrechu i leihau'r effeithiau ar ddiwylliant bywiog ac iaith Gymraeg sy'n ffynnu i lefel dderbyniol trwy bolisïau a rheolaeth effeithiol.

**Effeithiau cadarnhaol a nodwyd:**

**Pobl yn defnyddio'r Gymraeg**

Mae cynnydd mewn safonau tai gwell yn golygu bod tenantiaid yn debygol o aros yn yr ardal sydd hefyd yn annog cyflogaeth gynaliadwy.  Mae hyn yn grymuso siaradwyr Cymraeg i aros yn yr ardal leol.

**Hyrwyddo'r Gymraeg**

Bydd yr holl ohebiaeth a dogfennaeth sy'n ymwneud â'r cynllun hwn, gan gynnwys yr ymgynghoriad, yn ddwyieithog, yn y Gymraeg a'r Saesneg

**Diwylliant a threftadaeth**

Amherthnasol

**Effeithiau negyddol a nodwyd:**

**Pobl yn defnyddio’r Gymraeg**

Amherthnasol

**Hyrwyddo’r Gymraeg**

Bydd cynnydd yng nghost gwasanaethau cyfieithu ond mae hyn wedi'i gyfrif o fewn y gyllideb gorfforaethol

**Diwylliant a threftadaeth**

Amherthnasol

**Sir Ddinbych sy’n gyfrifol yn fyd-eang**

**Effaith Gyffredinol**

Cadarnhaol

**Cyfiawnhad dros yr effaith**

Drwy nodi'r effeithiau negyddol a gwneud gwelliannau i'r stoc tai, gallwn ymdrechu i sicrhau bod Sir Ddinbych yn gyfrifol yn fyd-eang trwy bolisïau a rheolaeth effeithiol.

**Camau pellach angenrheidiol**

Drwy nodi'r effeithiau negyddol a gwneud gwelliannau i'r stoc tai, gallwn ymdrechu i sicrhau bod Sir Ddinbych yn gyfrifol yn fyd-eang trwy bolisïau a rheolaeth effeithiol.

**Effeithiau cadarnhaol a nodwyd:**

**Cadwyni cyflenwi lleol, cenedlaethol a rhyngwladol**

Bydd safon well o dai a chyflwyno amodau Trwyddedu Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yn cael effaith gadarnhaol ar y gymuned

**Hawliau dynol**

Yn lleihau Ymddygiad Gwrthgymdeithasol - wedi'i ddogfennu trwy fonitro Ymddygiad Gwrthgymdeithasol Llwybr yr Heddlu
Potensial i wella'r perthnasoedd rhwng perchennog/meddiannwr a thenantiaid cymdeithasol/tenantiaid diamddiffyn oherwydd gwelliannau ffisegol
Rhoddir cefnogaeth i landlordiaid eiddo trwyddedig i ddelio ag achosion o Ymddygiad Gwrthgymdeithasol a throsedd ac mae gweithdrefnau ar waith fel amod trwyddedu (mae angen hyfforddiant fel rhan o'r amodau trwyddedu)

**Darpariaeth gwasanaeth ehangach yn yr ardal leol neu'r rhanbarth**

Mae perthynas waith agos ag asiantaethau partner fel y Gwasanaeth Tân, yr Heddlu ac Atal Digartrefedd yn caniatáu meddwl a gweithio ar y cyd

Yn cyd-fynd â Chynllun/strategaeth Gweithredu Iechyd Grwpiau Digartrefedd a Diamddiffyn

**Lleihau newid hinsawdd**

[NODWCH]

**Effeithiau negyddol a nodwyd:**

**Cadwyni cyflenwi lleol, cenedlaethol a rhyngwladol**

Amherthnasol

**Hawliau dynol**

Amherthnasol

**Darpariaeth gwasanaeth ehangach yn yr ardal leol neu'r rhanbarth**

Amherthnasol

**Lleihau newid hinsawdd**

[NODWCH]